# Yn gryfach efo'n gilydd

**Cysyniadau:** **Cydweithio, cryfder, dyfalbarhad, gwaith tîm, rhannu.**

**Amcan:** **Arwain y plant i feddwl am y cysyniad o nerth mewn undod.**

**Cyfarpar:** **Darn o edafedd 1 metr, siswrn i dorri'r edafedd.**

**Cyflwyniad:**
Darn o edafedd metr o hyd ar y bwrdd. Gwahodd plant i ddod i dorri'r edafedd yn ddau ddarn o'r un maint. Yna rhoi'r ddau ddarn gyda'i gilydd a'u torri'n bedwar ac yn y blaen. Pan fydd yna fwy a mwy o ddarnau bydd y plant yn ei chael hi'n anodd i'w torri.

**Stori:**

*Unwaith roedd yna ddyn oedd yn llwglyd iawn. Doedd o ddim wedi cael bwyd ers dyddiau. Aeth i lawr i lan y môr i geisio dal pysgod i gael pryd o fwyd. Doedd ganddo ddim byd i ddal y pysgod, felly aeth ati gyda'i ddwylo. Bu wrth am hydoedd ond llwyddodd pob pysgodyn i ddianc.*

*Chysgodd o ddim y noson honno. Roedd ar ei gythlwng. Bore drannoeth aeth unwaith eto i lawr i lan y môr. Daeth dyn dieithr ato. Tybed ai ffrind neu elyn oedd hwn? 'Fedri di fy helpu i ddal pysgod? Mi ydw i bron â llwgu eisiau bwyd,' gofynnodd i'r dyn.*

*'Wrth gwrs,' meddai'r dyn dieithr. A bu'r ddau wrthi'n ddiwyd. Ond pan ddaeth yr hwyr doedden nhw ddim wedi dal dim.*

*'Paid ti â phoeni,' meddai'r dyn dieithr. 'Mi af yn ôl i'r pentref i chwilio am fy ffrindiau ac maen nhw'n siŵr o ddod i'n helpu'. A dyna ddigwyddodd.*

*Bore trannoeth cyrhaeddodd y dyn dieithr a chriw o'i ffrindiau.*

*Ond doedd gan yr un ohonyn nhw ddim offer i ddal pysgod. Sut ar wyneb y ddaear oedden nhw'n mynd i ddal pysgod? A dyma un o'r dynion yn tynnu rhwyd anferth o'i fag. 'Mi wnawn ni bysgota efo'n gilydd a defnyddio'r rhwyd hon. Fydd na'r un ohonon ni'n llwglyd heno,' meddai'r dyn.*

*Yn wir i chi, gyda phob un ohonyn nhw'n cydweithio, erbyn gyda'r nos roedd y dyn dieithr a'i ffrindiau wedi dal un, dau ... wyth, naw ... un deg chwech, un deg saith ... un deg naw, dau ddeg o bysgod mawr. Dyma un ohonyn nhw'n cynnau tân ar lan y môr a rhostio'r pysgod. Aeth pob un ohonyn nhw i'r gwely y noson honno wedi cael mwy na digon o bysgod blasus. Cysgodd pob un ohonyn nhw tan y bore.*

**Trafodaeth bellach:**

- Beth oedd yn gyfrifol am y ddalfa fawr o bysgod?

- Beth fyddai wedi digwydd i'r dyn petai wedi aros ar ei ben ei hun?

- Ydi gweithio efo'n gilydd yn beth da bob tro?

**Neges o'r Beibl:**

Mae angen llawer o wahanol rannau i wneud un corff. Dydy'r llygad ddim yn gallu dweud wrth y llaw, "Does arna i ddim dy angen di!" A dydy'r pen ddim yn gallu dweud wrth y traed, "Does arna i ddim eich angen chi!" 1 Corinthiaid 12:20–21 beibl.net

**Trafodaeth bellach:**

- Beth fyddai'n digwydd petai'r llygad yn dadlau efo'r traed, neu'r llaw yn dadlau efo'r geg?

- Beth, yn eich barn chi, mae'r darn yma o'r Beibl yn ceisio'i ddweud wrthyn ni?

**Emyn: Pe bai gennyf forthwyl: Mwy o Glap a Chân 63**

**Dyfyniad o'r Beibl:**
Dŷn ni'n cydweithio gyda Duw. 2 Corinthiaid 6:1 beibl.net

**Munud i feddwl:**
Mi fedra i wneud pethau na fedrwch chi,
ac mi fedrwch chi wneud pethau na fedra i.
Efo'n gilydd mi fedrwn ni wneud pethau mawr.

Y Fam Theresa

**Myfyrdod/Gweddi:**
O Dduw, diolch i ti am y cyfle i gael gweithio efo'n gilydd. Helpa ni i gofio, os ydyn ni'n gweithio efo'n gilydd, er ein bod ni yn wahanol, mi allwn wneud llawer mwy na fedrwn ni wneud ar ein pennau ein hunain. Diolch. Amen.